Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Y Gyfarwyddiaeth Addysg**
Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynwch am:*
*Ffôn:*
*E-Bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 5 Mawrth 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Ers imi ysgrifennu atoch ddiwethaf, mae'n amlwg ein bod mewn gwell sefyllfa lle mae ysgolion yn Abertawe yn y cwestiwn. O 24 Chwefror, mae ein plant ieuengaf wedi dychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus.

Bellach gallwn ddefnyddio dull hyblyg i groesawu mwy o ddisgyblion yn ôl ac anelu at ddychwelyd yn llawn i'r ysgolion ar ôl gwyliau'r Pasg. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog dychweliad pwyllog a hyblyg. Ein nod yw dod â grwpiau blwyddyn sydd wedi eu blaenoriaethu yn ôl yn ogystal â rhoi cyfle i flynyddoedd 7-9 gael gwiriad am les a'u paratoi i ddychwelyd ar ôl y Pasg. Rydyn ni'n gobeithio gweld pob grŵp blwyddyn yn dychwelyd erbyn canol mis Ebrill.

Rydym am weld dychweliad diogel a chynaliadwy i ysgolion felly byddwn yn cymryd agwedd hyblyg.

**Ysgolion cynradd 15 Mawrth 2021**

Disgwylir i bob disgybl cynradd fod yn yr ysgol ar y dyddiad hwn. Disgwyliwn y bydd disgyblion blwyddyn 3, blwyddyn 4, blwyddyn 5 a blwyddyn 6 yn dychwelyd ar 15 Mawrth i ymuno â phlant yn y cyfnod sylfaen. Bydd prydau ysgol yn cael eu cynnig i'r ysgol gyfan ar ôl dychwelyd o'r 15fed.

**Ysgolion uwchradd 15 Mawrth 2021**

Ar draws Abertawe, mae blynyddoedd 11 a 13 yn dychwelyd ar 15 Mawrth 2021

Ar draws Abertawe, mae blynyddoedd 10 a 12 yn dychwelyd ar 18 Mawrth 2021

Bydd blynyddoedd 7, 8 a 9 yn cael cyfle i fod yn bresennol am un diwrnod rhwng 15 Mawrth a 26 Mawrth. Bydd eich ysgol leol yn rhoi gwybod i chi beth yw eu trefniadau.

Bydd pob disgybl uwchradd yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl y Pasg ar ddydd Mawrth 13 Ebrill 2021 (bydd dydd Llun 12 Ebrill yn ddiwrnod cynllunio, ac ni fydd dysgu ar y safle ar gael i unrhyw blant ar y diwrnod hwn).

Pan fydd disgyblion oed uwchradd yn dechrau dychwelyd o 15 Mawrth, rydym yn disgwyl iddynt ddod â phecyn cinio hyd at 26 Mawrth. Rydyn ni'n gobeithio dechrau gweini prydau poeth ar ôl y Pasg.

To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

**Taliadau Pryd Ysgol / Parseli Bwyd Am Ddim**

Bydd taliadau a pharseli prydau ysgol am ddim yn dod i ben ar gyfer holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (blynyddoedd 3 i 6) ar 12 Mawrth 2021, ac ar gyfer pob disgybl uwchradd cyn dychwelyd yn llawn i'r ysgol ar 13 Ebrill 2021.

Sylwch y bydd taliadau prydau ysgol am ddim / parseli bwyd yn cael eu darparu ar gyfer pob cyfnod gwyliau ysgol o'r Pasg 2021 hyd at, ac yn cynnwys, Pasg 2022. Byddwn yn defnyddio'r manylion banc rydych chi wedi'u darparu ar eich Cyfrif Abertawe, felly os bydd eich manylion yn newid chi bydd angen eu diweddaru eich hun cyn y taliadau gwyliau. Gallwch weld eich cyfrif yma https://account.swansea.gov.uk/.

**Profion Llif Unffordd Gwirfoddol i ddisgyblion ym mlwyddyn 10 ac uwch**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnig profion llif unffordd asymptomatig rheolaidd ar gyfer pob dysgwr ym mlynyddoedd 10-13 ac addysg bellach. Bydd y citiau profi cartref llif unffordd yn caniatáu i fyfyrwyr brofi eu hunain ddwywaith yr wythnos. Bydd dysgwyr yn gallu casglu eu citiau prawf o'u hysgol / lleoliad a byddant yn profi eu hunain gartref. Bydd y profion hyn yn rhan o ystod o fesurau sydd ar waith i helpu i reoli trosglwyddiad y firws. Mae'r cyfrifoldeb am reoli sefyll ac adrodd am y profion gyda rhieni / gofalwyr a phobl ifanc. Os gwnaethoch ddewis cynnal y profion, yna mae'n bwysig iawn bod unrhyw ganlyniadau cadarnhaol yn cael eu hadrodd a bod gofynion hunan-ynysu yn cael eu bodloni. Gobeithiaf hefyd y byddant yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol y bydd unrhyw achosion cadarnhaol yn cael eu nodi'n gynnar.

Mae mwy o wybodaeth am fanylion penodol y prosesau yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru a bydd ysgolion yn ei rhannu cyn gynted â phosibl.

**Masgiau**

Bydd gofyn i ddisgyblion yn ein hysgolion uwchradd wisgo mwgwd yn yr ysgol os na allant gadw'r pellter gofynnol oddi wrth eraill. Rhaid i fasgiau fod yn dair haenog a rhoddir tri masg o ansawdd da i'r disgyblion y gellir eu golchi hyd at 50 gwaith.

**Trafnidiaeth**

Os na fydd eich plentyn yn defnyddio cludiant ysgol ar ôl 15 Mawrth, rhowch wybod i'ch ysgol leol fel y gallant wneud cynlluniau gyda swyddogion trafnidiaeth.

**Prynu gwisg ysgol**

Mae'r mwyafrif o gynhyrchion ar gael i glicio a chasglu lle mae gan fusnesau y cyfleuster hwnnw. Mae hyn yn galluogi pobl i brynu eitemau sydd eu hangen arnynt heb orfod mynd i mewn i siopau. Mae archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o gynnyrch hefyd yn gallu gwerthu cynhyrchion nad ydyn nhw ar werth yn gyffredinol ar lefel rhybudd pedwar os oes eu hangen mewn argyfwng neu ar sail dosturiol. Mae hyn yn golygu efallai na fyddwch yn gallu edrych yn yr adran ddillad er enghraifft ond gall aelodau staff gael cynhyrchion ar eich cyfer a'u gwerthu i chi os bodlonir y seiliau uchod. Byddai angen trio unrhyw ddillad ymlaen gartref ac os nad ydyn nhw’n ffitio, dylid eu dychwelyd i'r siop yn unol â'r polisi dychwelyd. Gobeithiwn weld y rheolau ar siopa nad yw'n hanfodol yn newid ar 15 Mawrth.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y gall grwpiau blwyddyn ychwanegol hawlio am grant gwisg ysgol os oes gan eu plentyn hawl i brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd (nid yw hyn yn cynnwys y rheini â lefelau incwm uwch sydd â Diogelu Trosiannol ar gyfer pryd bwyd am ddim). Mae swyddogion yn gweithio ar gais ar-lein newydd a dylai hwn fod yn barod tua diwedd yr wythnos nesaf. Cynghorir rhieni pan fydd y system yn barod iddynt wneud cais. Gellir gweld manylion y grwpiau blwyddyn sy'n gymwys yma https://llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad?_ga=2.203956560.1982665802.1614599566-377894762.1608289722.

**Negeseuon allweddol ar gyfer cadw'n ddiogel**

Mae'n hanfodol bod ein plant a'n rhieni yn parhau i gadw at yr holl reolau pellhau cymdeithasol o dan ein haen o gyfyngiadau er mwyn galluogi llacio rheolau ymhellach. Mae hyn yn golygu na ddylai dysgwyr gymysgu y tu allan i'r ysgol er eu bod yn gwneud hynny y tu mewn i'r ysgol, gan y bydd rheolau caeth yn cael eu dilyn ar dir yr ysgol.

A gaf i achub ar y cyfle hwn i'ch atgoffa mai golchi dwylo a phellter cymdeithasol yw ein ffordd orau o hyd i atal Covid rhag lledaenu.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor Abertawe
Swansea Council